

# Brwydro'n llwyddiannus

*"... dim ond inni gadw'n golwg, nid ar y pethau a welir,  
ond ar y pethau na welir." (adn. 18)*

## Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 4:5–18 ac yna myfyrio

Beth am edrych yn ôl am eiliad ar y materion yr ydym wedi eu hystyried dros y diwrnodau diwethaf. Rhaid cadw'r nefoedd yn wastad o flaen ein llygaid. Mae'n ein cynorthwyo i feddu persbectif iawn ar ein bywyd. Cred rhai y gallwn feddiannu'r nefoedd yn awr, iechyd a chyfoeth nes i ni farw. Nonsens yw hyn, wrth gwrs, celwydd anysgrhythurol. Mae Duw yn ateb ein gweddïau. Mae Duw yn cyflawni gwyrthiau ond nid yw yn gwneud hyn bob tro. O bryd i'w gilydd, mae'n caniatáu i bobl ddioddef. Does dim diben dweud bod y rhai sydd yn dioddef yn dioddef oherwydd diffyg ffydd. Nid yw hyn yn wir, nid yw yn Feiblaidd. Mae angen diwinyddiaeth dioddefaint ar yr Eglwys er mwyn cael balans i'w diwinyddiaeth am wyrthiau.

Yr ydym yn byw mewn byd nad ydym wedi ein creu ar ei gyfer. Am hynny, mae yna orthrwm hyd yn oed yn ein llawenydd. Yn ein munudau gorau, sylweddolwn ein bod yn profi rhywbeth sydd yn llai na'r hyn a fwriadodd Duw ar ein cyfer. Nid meddwl yn negyddol yw hyn, ond cael golwg real ar ein hamgylchiadau. Nid yw cydnabod y realiti yma yn lleihau ein llawenydd. Yn hytrach, mae yn ein cynorthwyo i wynebu bywyd. Dyma realaeth Gristnogol, rhywbeth sydd ar goll mewn llawer o eglwysi heddiw. Ystyriwch yr hyn y mae yr apostol yn ei ddweud yn yr adran yma. Mae'n amlwg ei fod yn brwydro ond yn brwydro yn dda. Yr ydym yn cael Paul yn sôn am gael ei orthrymu ond nid ei lethu, ei fwrw i ansicrwydd ond nid i anobaith, ei erlid ond heb ei adael yn amddifad. Er y cyfan, yr oedd yn gwybod am fyd gwell i ddod â'r wybodaeth a'r adnabyddiaeth yma oedd yn ei gynorthwyo i symud ymlaen. Mae'r rhai sydd am feirniadu Cristnogaeth yn cyfeirio at rai fel Paul, fel pobl sydd yn dianc o'r byd real, ond nid dihangfa oedd hyn i'r apostol. Mae'n wynebu realiti'r nefoedd ac ar gyfrif hynny y mae yn medru wynebu realiti'r byd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Heb. 11:31–40; Salm 42:1–11

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd rhai o brofiadau'r gwŷr a'r gwragedd yma a feddai ffydd?
2. Sut y disgrifiodd y salmydd ei hunan mewn amgylchiadau fel hyn?

## Gweddi

O Dad, beth bynnag yw'r brwydrau a roddi ar fy llwybr yn y byd yma, cynorthwya fi i frwydro yn dda. Addewaist ti na fuaset yn fy ngadael yn amddifad byth. Yr wyt gyda mi ym mhob peth. Rwy'n diolch i ti yn enw Iesu. Amen.